

DATBLYGU YMHELLACH FODELAU YMGYSYLLTIAD CYMHEIRIAID YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan batrwm posib ar gyfer datblygu modelau ymgysylltiad cymheiriaid ystyrion yn rhanbarth gogledd Cymru, a hynny drwy gynllun peilot ymgysylltiad cymheiriaid.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system werthuso, gwella ac atebolrwydd yn un sy'n deg, yn gydlynol, yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar werthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae Cenhadaeth ein cenedl yn ein hymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer gwerthuso a gwella, a hynny ar bob lefel. Bydd angen i'r rhain fod yn ddigon cadarn a chryf i sicrhau'r gwelliannau a fynir mewn ysgolion. O fewn y trefniadau hyn, mae disgwyliad clir i ysgolion ddatblygu nid yn unig y capasiti a'r sgiliau i herio eu hunain yn effeithiol ond hefyd y gallu i weithio ar y cyd ac yn systematig mewn model gwella ysgolion yn seiliedig ar ymgysylltiad cymheiriaid proffesiynol. Bydd y dull gweithredu rhanbarthol yn rhan o'r Fframwaith Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol ehangach, gan ddatblygu modelau sy'n bod eisoes tra datblygir modelau a phartneriaethau newydd ac arloesol.

Ar 22 Ionawr 2019 yn Venue Cymru, Llandudno, gweithredodd GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol gamau cyntaf proses ymgynghori â Phenaethiaid ar yr amrywiol *agweddau ar y Daith Ddiwygio Genedlaethol*. Rhoddwyd cyfleoedd helaeth i dros 400 o gynadleddwyr drafod sut y gallai rhanddeiliaid allweddol gefnogi a herio ei gilydd orau er sicrhau ein bod yn cyfrannu'n effeithiol i Genhadaeth ein cenedl. O ran datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cymorth ac ymgysylltiad cymheiriaid, gofynnwyd i gynadleddwyr ymateb i gyfres o gwestiynau ac ymholiadau, yn benodol:

- Beth yw egwyddorion sylfaenol model effeithiol?
- Sut ddylid penderfynu ar grwpiau/clystyrau cymheiriaid? A ddylem fabwysiadu trefn gyffredin ar gyfer pob ysgol waeth beth fo'r 'categori cymorth' ar hyn o bryd? Neu, a fyddai dull gwahaniaethol yn cynnig dewis mwy ymarferol yn y tymor byr?
- Sut ydym ni'n sicrhau bod y gwaith a wneir o fewn grŵp/clwstwr cymheiriaid yn digwydd drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na dim ond mewn 'digwyddiad blynyddol'?
- Sut allai GwE gefnogi'r broses yn fwyaf effeithiol?
- Mae'r mwyafrif o ysgolion y rhanbarth eisoes yn cydweithio mewn clystyrau neu'n rhan o fodelau cefnogaeth gan gymheiriaid, naill ai o fewn eu sector neu'n draws sector. Beth fyddai'r ffordd orau o alinio'r 'model ymgysylltu â chymheiriaid a dilysu' â mentrau cydweithredol eraill sydd ar waith ar hyn o bryd?
- Beth yw'r anghenion dysgu proffesiynol er mwyn datblygu model cadarn ar gyfer 'ymgysylltu â chymheiriaid a dilysu'? Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r anghenion hyn?

Mae trafodaethau lleol pellach yn yr arfaeth i ddilysu synthesis y materion a'r meysydd a nodwyd. Fodd bynnag, roedd nifer o themâu cyffredin a negeseuon allweddol yn treiddio trwy ymatebion rhanddeiliaid yn y cynradd a'r uwchradd. Yn benodol:

- dylid arfer dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid yn rhanbarthol er mwyn gyrru cynnydd ymhellach tuag at system hunan wella
- ni ddylid datblygu'r model adolygu gan gymheiriaid hwn i gyflwyno system o 'ffug arolygiadau'
- dylai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er sicrhau ein bod yn creu'r amodau priodol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid sy'n effeithiol
- dylem gytuno ar set rhanbarthol o egwyddorion ac iaith dechnegol ar gyfer ein model, a'u harfer.
- dylem gytuno ar ffiniau'r fframwaith, fydd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion weithredu ystod o fodelau

- dylai ysgolion gael rhyddid a hyblygrwydd i ddethol eu cymheiriaid
- dylai'r model gynnwys ymgysylltiad cymheiriaid ar bob lefel mewn ysgol
- dylai'r model hybu ymddiriedaeth, gonestrwydd, tryloywder a ffydd broffesiynol
- dylai ymgysylltu fod yn broses gefnogol a chynaliadwy yn hytrach nag un digwyddiad beichus, un-tro
- dylai'r model gefnogi symud diwylliannol tuag at berchenogaeth ar y cyd

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol am weithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltiad cymheiriaid sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid.

Gwahodddwn, felly, ddatganiadau o ddiddordeb gan grwpiau o ysgolion i gymryd rhan mewn rhaglen beilot ymgysylltiad cymheiriaid .

Gyda golwg ar y peilot, rhagwelir dull deulol:

1. annog grwpiau o ysgolion i ddatblygu modelau ar gyfer adolygu gan gymheiriaid sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd uchod, ac a fydd yn bodloni'r meini prawf a ddiffinnir; neu drwy
2. arfer dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid sy'n strwythuredig, a hynny drwy weithio gyda GwE a phartner allanol i fireinio ac esblygu model a fydd yn bodloni anghenion yn lleol.

Byddem yn **cefnogi ac yn darparu cyllid** ar gyfer amrywiaeth o fodelau clwstwr, megis ysgolion bach gwledig, ysgolion trefol mawr, traws-sector, trawsawdurdod neu fodelau arloesol eraill. Byddwn yn trafod â phob grŵp p'un o'r uchod yw'r opsiwn a ffefrir ar ôl derbyn datganiad cychwynnol o ddiddordeb i gymryd rhan yn y rhaglen beilot. Trafodir cyllid posib i gefnogi pob grŵp yn dilyn derbyn y datganiadau o ddiddordeb.

Credwn yn gryf y gallai rhaglen beilot o'r fath sicrhau bod rhanbarth gogledd Cymru yn arwain yn genedlaethol ar siapio a fframio fframwaith a model ar gyfer ymgysylltiad cymheiriaid effeithiol. Trwy fod â pherchenogaeth ar ddatblygiadau gallwn hefyd sicrhau bod ein model ymgysylltiad cymheiriaid wir yn adlewyrchu angen lleol, ac yn cefnogi datblygiad diwylliant sy'n seiliedig ar fod yn agored, ymddiriedaeth a chyd-ymdrech gytûn ar draws y system.

Cysylltwch â'r canlynol os am ragor o wybodaeth:

Alwyn Jones (alwynjones@gwegogledd.cymru 07557759451);

Marc Berw Hughes (marcberwhughes@gwegogledd.cymru 07969324329); neu

Elfyn Vaughan Jones (elfynjones@gwegogledd.cymru 07557759240)